Pecyn Dogfennau

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD IAU, 11 AWST 2022**

**AT: HOLL AELODAU Y PWYLLGOR SAFONAU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU **RHITH-GYFARFOD** O'R **PWYLLGOR SAFONAU** A GYNHELIR **AM 2.00 YP DYDD IAU, 25AIN AWST, 2022** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Emma Bryer** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224029** |
| **E-Bost:** | **ebryer@sirgar.gov.uk** |


Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# PWYLLGOR SAFONAU

**Aelodau Annibynnol (5)**

1. Mrs Mary Dodd
2. Ms Caryl Davies
3. Mrs Daphne Evans
4. Mrs Julie James
5. Mr Frank Phillips

**Aelod Pwyllgor Cymunedol (1)**

1. Y Cynghorydd Tref Phillip Rogers

**Aelodau Etholedig y Cyngor Sir (3)**

1. Y Cynghorydd Betsan Jones
2. Y Cynghorydd Rob James
3. Y Cynghorydd Gareth Thomas

# A G E N D A

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

2. **DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

3. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR:**

   **3 .1 28AIN GORFFENNAF 2022** 5 - 8

   **3 .2 4YDD AWST 2022** 9 - 10

4. **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

   **NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'R MATER CANLYNOL GAN EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFFAU 12 A 13 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y PWYLLGOR, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.**

5. **YSTYRIAETH GYCHWYNNOL O ADRODDIAD A GYHOEDDWYD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU MEWN PERTHYNAS Â'R CYNGHORYDD TREF LOUISE WRIDE** 11 - 130

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

## PWYLLGOR SAFONAU

## 28 GORFFENNAF 2022

**PRESENNOL** Mrs M. Dodd (Cadeirydd)

**Aelodau Annibynnol (Yn y Siambr):**
Ms D. Evans, Mrs J. James.

**Aelod Annibynnol (Rhithwir):**
Mr F. Phillips.

**Aelod Cymunedol (Rhithwir):-**
Y Cynghorydd Tref P. Rogers

**Y Cynghorydd (Yn y Siambr):**
B. W. Jones.

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
R. James, G.B. Thomas.

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod (Yn y Siambr):**
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
A. Eynon, Prif Gyfieithydd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Cofnodion].

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod (Rhithwir):**
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 2:00yp - 2:40yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Aelod Annibynnol - Ms Caryl Davies.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD A GYNHALWYD AR 13 MEHEFIN, 2022.

Cyfeiriwyd at gofnod 9 a oedd yn datgan, 'Penderfynwyd yn Unfrydol'. Dywedwyd bod rhai aelodau o'r Pwyllgor wedi pleidleisio'n wahanol o ran penderfyniad 9.1 ac er bod geiriad y penderfyniad yn berthnasol, i adlewyrchu pleidlais y mwyafrif, nodwyd y dylid newid y cofnod fel ei fod yn darllen 'Penderfynwyd'. Dywedodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith fod angen ailedrych ar y gweddarllediad o'r cyfarfod er mwyn gwirio'r hyn oedd yn cael ei ddweud a newid y cofnodion yn unol â hynny, pe bai angen.

Yn ogystal, mewn perthynas â Chofnod 9, mynegwyd pryder ynghylch nifer y Cynghorwyr yr effeithir arnynt gan 'faterion ffermio' oherwydd yr ystod eang o ffactorau amrywiol yr oedd y term hwn yn eu cwmpasu o fewn y diwydiant ffermio. Roedd y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn cytuno ac roedd o'r farn y byddai'n ddoeth rhoi eglurder i Aelodau drwy nodyn cyfarwyddyd penodol. Croesawodd y Pwyllgor y cynnig hwn a gofynnod am i hon fod yn eitem ar yr agenda yn y cyfarfod nesaf.

[SYLWER: Yn dilyn adolygu'r gweddarllediad o'r cyfarfod diwethaf.]

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2022 yn gywir, yn amodol ar y newidiadau canlynol:-**

**3.1 newid cofnod 9 o gyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2022 fel a ganlyn:-**

**9.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu gollyngiad o dan Reoliadau 2(d) ac (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i'r Cynghorwyr Sir Jean Lewis, Ann Davies, Gareth Beynon Thomas, Ken Howell, Hefin Jones, Arwel Davies, Mansel Charles, Tyssul Evans, Kim Broom ac Elwyn Williams i SIARAD A CHYFLWYNO SYLWADAU YSGRIFENEDIG yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin mewn perthynas ag unrhyw faterion i'r Cyngor sy'n ymwneud â ffermio yn gyffredinol, tan ddiwedd y cyfnod etholiadol presennol.**

**9.2 PENDERFYNWYD PEIDIO â chaniatáu gollyngiad o dan Reoliadau 2(d) ac (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i'r Cynghorwyr Sir Jean Lewis, Ann Davies, Gareth Beynon Thomas, Ken Howell, Hefin Jones, Arwel Davies, Mansel Charles, Tyssul Evans, Kim Broom ac Elwyn Williams i BLEIDLEISIO yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin mewn perthynas ag unrhyw faterion i'r Cyngor sy'n ymwneud â ffermio yn gyffredinol, tan ddiwedd y cyfnod etholiadol presennol;**

**9.3 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorwyr a enwir uchod yn cael eu cynghori i geisio cyngor cyfreithiol pellach ac os oes angen, wneud cais am ollyngiad arall os byddant yn dymuno cymryd rhan ym musnes y Cyngor sy'n ymwneud yn benodol â hwy, neu sy'n debygol o effeithio arnynt hwy, neu'u cysylltiadau personol agos o ran gweithgareddau ffermio neu dir fferm.**

**3.2 bod nodyn cyfarwyddyd ar faterion gwledig yn cael ei ddatblygu a'i gynnwys ar yr agenda i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau.**

## 4. UNRHYW FATER ARALL

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

## 5. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 6. YSTYRIAETH GYCHWYNNOL O'R ADRODDIAD A GYHOEDDWYD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU MEWN PERTHYNAS Â'R CYNGHORYDD TERRY DAVIES

**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 5 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth hon ar y cam cychwynnol hwn o broses ddau gam yn ymyrraeth anghymesur a direswm i fywyd teuluol y Cynghorydd dan sylw.**

Cyn ystyried yr eitem hon, datgelodd rhai aelodau nad oeddent yn gallu cael mynediad i'r eitem gyfyngedig hon ar yr agenda oherwydd anawsterau technegol ac felly nad oeddent wedi gweld yr adroddiad a'r dogfennau ategol eto. Yng ngoleuni hyn, ar ôl gofyn am gyngor cyfreithiol, cynigwyd felly bod y cyfarfod yn cael ei ohirio er mwyn datrys y broblem dechnegol a rhoi digon o amser i Aelodau ddarllen yr adroddiad a'r dogfennau ategol. Eiliwyd y cynnig hwn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio'r cyfarfod hwn a threfnu ailgynnull cyfarfod y Pwyllgor Safonau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl er mwyn ystyried yr eitem hon ar yr agenda.**

________________ ____________________
**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR SAFONAU WEDI'I AIL-YMGYNNULL

## DYDD IAU 4 AWST 2022

**PRESENNOL:** Mrs M. Dodd (Cadeirydd)

**Aelodau Annibynnol:**
Ms D. Evans, Mrs J. James

**Aelod Cymunedol:**
Cynghorydd Tref P. Rogers

**Cynghorwyr:**
G.B. Thomas

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Cymerwr Cofnodion)

**Rhith-Gyfarfod : 2.05 yp - 2.50 yp**

[**Sylwer**: Oherwydd anawsterau technegol wrth ffrydio'r gweddarllediad, wrth gael gwybod na fyddai trefn y materion o'r dechrau yn cael ei we-ddarlledu na'i fod ar gael i'r cyhoedd ei wylio, gofynnodd y Pwyllgor am gyngor cyfreithiol a chytunodd i fwrw ymlaen â threfn y materion fel y nodir ar yr agenda.]

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau Annibynnol C. Davies ac F. Phillips a'r Cynghorydd Sir B. W. Jones.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 4. YSTYRIAETH GYCHWYNNOL O'R ADRODDIAD A GYHOEDDWYN GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU MEWN PERTHYNAS A'R CYNGHORYDD TERRY DAVIES

**Ar ôl cynnal y prawf budd i'r cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 5 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth ynddo byddai datgelu ar y cam cychwynnol hwn o broses dau gam yn anghymesur a byddai'n tarfu'n anfanteisiol ar fywyd preifat a bywyd teuluol y Cynghorydd dan sylw.**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a dderbyniwyd gan Swyddog Monitro'r Cyngor Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a nododd ganlyniadau'r ymchwiliad i honiadau bod y Cynghorydd Davies wedi torri côd ymddygiad yr aelodau.

Cynhaliodd aelodau, yn unol â'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor, ystyriaeth gychwynnol o'r adroddiad ac yn seiliedig ar gynnwys adroddiad yr Ombwdsmon yn unig daeth i benderfyniad.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cynnwys tystiolaeth o doriad ac y dylai'r Cynghorydd Davies gael cyfle i gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, mewn perthynas â chanfyddiadau'r ymchwiliad**

________________________  ____________________

**CADEIRYDD**  **DYDDIAD**

# Eitem Rhif 5

Yn rhinwedd paragraff(au) 12, 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwy
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(au) 12, 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwy
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(au) 12, 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwy
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol